

Arweiniad Cyfeirio: IEEE Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau Prifysgol Bangor

Mawrth 2015

Mae'r Sefydliad Peirianwyr Trydanol ac Electronig (IEEE) yn gofyn am arddull penodol gan awduron sy'n ysgrifennu ar gyfer eu cyhoeddiadau. Dyma arweiniad ar sut i ddefnyddio'r arddull cyfeirio hwn. Gwelir yr arweinyfr IEEE cyfan ar: http://www.ieee.org/documents/style_manual.pdf (V8 10-30-2014)

1. Cyfeirnoddi yn y testun

Ystyr cyfeirio yw cydnabod y ffynonellau a ddefnyddiwyd gennych yn y testun.

Dylid gosod rhif y cyfeiriad mewn cromfachau sgwâr a dylai ddod yn union ar ôl y cyfeiriad, nid ar ddiwedd y frawddeg, a dylid gosod yr atalnodi y tu allan i'r cromfachau. Er enghraifft:
...rhoddwyd cynnig ar sawl dull [1-3] ond dim un a sicrhodd y canlyniad hwn.

Os ydych yn cyfeirio at gyfeiriad yr ydych wedi cyfeirio ato eisoes, defnyddiwch yr un rhif ag o'r blaen.

Mae'n bwysig rhoi rhif tudalen gyda chyfeiriad pan fyddwch yn dyfynnu'n uniongyrchol, neu pan fyddwch yn cyfeirio at fanylyn penodol mewn testun (er enghraifft, damcaniaeth neu syniad penodol, darlun, tabl, neu set o ystadegau). Defnyddiwch t. ar gyfer un dudalen a tt. ar gyfer mwy nag un dudalen.. Er enghraifft: [1, p. 3], [2, pp. 5-7], [3, para. 2.1].

Pan fyddwch yn dyfynnu'n uniongyrchol, defnyddiwch ddyfynodau dwbl o boptu i'r testun.

Os ydych chi'n crynhoi neu'n aralleirio, rhaid i chi gynnwys cyfeiriad yn y testun. Er enghraifft:
Yn ôl Jones [1], gallai'r gwahaniaeth hwn fod cymaint â 500%.....

Os ydych yn defnyddio nifer o ffynonellau mewn un cyfeiriad, rhowch goma rhwng pob un, er enghraifft [1], [3]. Os ydych yn cyfeirio at ystod o ffynonellau, defnyddiwch gyplysnod, er enghraifft [5-7].

2. Rhestr Cyfeiriadau / Llyfryddiaeth

Mae rhestr cyfeiriadau yn rhestr o ffynonellau yr ydych wedi eu defnyddio; dylai gynnwys digon o fanylion i alluogi darlennydd arall i ddod o hyd i'r union destun yr ydych yn cyfeirio ato. Rhowch ffynhonnell yn y rhestr cyfeiriadau dim ond os oes cyfeiriad ato yng nghorff y testun. Peidiwch â defnyddio cyfeiriadau eilaidd os gallwch; ceisiwch ddod i hyd i'r cyfeiriad gwreiddiol bob tro. Ystyr cyfeiriad eilaidd yw pan fyddwch yn cyfeirio at ffynhonnell nad ydych chi wedi ei ddarllen eich hun, ond wedi darllen amdani mewn ffynhonnell arall.

Dylai trefn y cyfeiriadau yn y rhestr ddilyn yr un drefn â'r cyfeiriadau yn y testun. Dylai'r rhif ymddangos ar y chwith mewn cromfachau sgwâr.

Gosodir blaenlythrennau enwau cyntaf yr awdur cyn y cyfenw a gosodir y dyddiad cyhoeddi ar y diwedd.

Rhowch briflythyren ar ddechrau prif eiriau teitlau cyhoeddiadau. Dylai'r fannod bendant (y, yr) a chysyllteiriau (ac, ond, ar gyfer) fod mewn llythrennau bach. Defnyddiwch dalfyriadau safonol ar gyfer teitlau cyfnodolion neu allweddeiriau lle maent yn hysbys; fe welir rhestr yr IEEE o dalfyriadau safonol ei deitlau ac allweddeiriau eraill yn: www.ieee.org/documents/ieeecitationref.pdf.

Yn y rhestr cyfeiriadau rhaid i chi restru enwau'r holl awduron, hyd at chwe enw. Os oes mwy na chwe awdur, defnyddiwch et al, ar ôl yr awdur cyntaf.

Mae angen gwybodaeth ychwanegol ar gyfer cyfeiriadau electronig, gan gynnwys y math o cyfrwng, sy'n golygu y fformat e.e. [e-lyfr] neu [ffilm] neu [delwedd]. Gallwch hefyd ddefnyddio [Ar-lein] fel math o cyfrwng. Lle mae DOI ar gael, mae'n cael ei ffafrio yn lle URL, ar ffurf: doi: 10.1109 / ICIST.2011.5760000, ond gallwch roi cyfeiriad y rhyngwyd neu enw cronfa ddata yn lle hynny os yw'n briodol.

3. Enghreifftiau o restr gyfeiriadau

Erthyglau cyfnodolion

Fformat Sylfaenol ar gyfer Erthyglau Print:

[1] J. K. Awdur, "Enw'r papur," *Teitl Byr y Cyfnodolyn*, cyfrol [rhif cyfrol], Rhifyn [Rhif y Rhifyn – nid yw hwn bob amser ar gael], tt. [rhif tudalen gyntaf]-[rhif tudalen olaf], Mis wedi ei Dalffyrro, blwyddyn.

Enghraifft o Erthygl Brint:

[1] R. E. Kalman, "New results in linear filtering," *J. Basic Eng.*, cyfrol 83, tt. 95-108, Mawrth 1961.

Fformat sylfaenol erthygl mewn cyfnodolyn electronig:

[1] J. K. Awdur, "Enw'r papur," *Teitl Byr y Cyfnodolyn*, cyfrol [rhif cyfrol], Rhifyn [Rhif y Rhifyn – nid yw hwn bob amser ar gael], tt. [rhif tudalen gyntaf]-[rhif tudalen olaf], Mis wedi ei Dalffyrro, blwyddyn. [Ar-lein]. Ar gael: <http://www...> [Cyrchwyd: dyddiad cyrchwyd].

Enghreifftiau o gyfeiriadau at erthyglau mewn cyfnodolion electronig:

[1] W. P. Risk, G. S. Kino, and H. J. Shaw, "Fiber-optic frequency shifter using a surface acoustic wave incident at an oblique angle," *Opt. Lett.*, vol. 11, no. 2, pp. 115–117, Feb. 1986. [Ar-lein]. Ar gael: <http://ol.osa.org/abstract.cfm?URI=ol-11-2-115>. [Cyrchwyd: 13 April 2012].

Adroddiadau

Fformat Sylfaenol ar gyfer Adroddiadau Print:

[1] J. K. Awdur, "Teitl yr adroddiad," Enw Talfyredig y Cwmni neu'r Corff sy'n Cyhoeddi, Dinas y Cwmni neu'r Corff sy'n Cyhoeddi, Talaith yn UDA wedi ei thalffyrro os bydd angen, Gwlad, Adroddiad *Rhif adroddiad*, blwyddyn.

Enghraifft o Erthygl Brint:

[1] E. E. Reber, R. L. Michell, a C. J. Carter, "Oxygen absorption in the earth's atmosphere," Aerospace Corp., Los Angeles, CA, Tech. Adroddiad TR-0200 (4230-46)-3, Tach. 1988.

Fformat Sylfaenol Adroddiadau Ar-lein:

[1] J. K. Awdur, "Teitl yr adroddiad," Enw Talfyredig y Cwmni neu'r Corff sy'n Cyhoeddi, Dinas y Cwmni neu'r Corff sy'n Cyhoeddi, Talaith yn UDA wedi ei thalffyrro os bydd angen, Gwlad, Adroddiad *Rhif adroddiad*, blwyddyn. [Ar-lein]. Ar gael: <http://www...> [Cyrchwyd: dyddiad cyrchwyd].

Nodyn - os mae'r awdur yn corff neu gwmni, nid oes angen i ailadrodd enw'r cwmni, gallwch gynnwys y wybodaeth ar y ddinas a'r wlad ar ôl defnydd cyntaf o'r enw cwmni fel enw'r awdur.

Enghreifftiau o Gyfeiriadau at Adroddiadau Ar-lein

[1] S. L. Talleen, "The IntraNet Architecture: Managing information in the new paradigm", Amdahl Corp, CA, USA, Rep. no. LTC3552, 2012. [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.amdahl.com/doc/products/bsg/intra/infra/html>. [Cyrchwyd: 31 March 2015].

[2] Netscape Communications Corp., Palo Alto, CA, USA, "The new way to share workgroup information". [Ar-lein]. Ar gael: <http://home.netscape.com/comprod/a>. [Cyrchwyd: 5 October 2012].

Llyfrau

Fformat Sylfaenol Adroddiadau Print:

[1] J. K. Awdur, *Teitl y Llyfr*, xth ed. Dinas y Cyhoeddwr, Gwlad (os nad UDA): Cyhoeddwr, blwyddyn.

Enghraifft o Adroddiad Print:

[1] R. Pears and G. Shields Eds. *Cite Them Right*, 2nd ed. Hampshire: Palgrave Macmillan, 2013.

Fformat sylfaenol cyfeiriad at Lyfr Electronig:

[1] J. K. Awdur, *Teitl y Llyfr*, xth ed. Dinas y Cyhoeddwr, Gwlad (os nad UDA): Cyhoeddwr, blwyddyn. [E-lyfr]. Ar gael: <http://www...> [Cyrchwyd: dyddiad cyrchwyd].

Enghraifftiau o gyfeiriad at Lyfr Electronig:

- [1] J. Jones, *Networks*, 2nd ed. 1991. [E-lyfr]. Ar gael: <http://www.atm.com> [Cyrchwyd: 31 March 2012].
- [2] M.E. El-Hawary, *Electric Power Applications of Fuzzy Systems*, 1998. [E-lyfr]. Ar gael: <http://www.knovel.com> [Cyrchwyd: 4 June 2010].

Penodau o lyfr wedi'i olygu**Fformat Sylfaenol Llyfr Print:**

- [1] J. K. Awdur, "Teitl y bennod yn y llyfr," yn *Nheiti y Llyfr*, xed argraffiad, J. K. Golygydd, Gol. Dinas y Cyhoeddwr, Gwlad (os nad UDA: Talfyriad y Cyhoeddwr, blwyddyn, pennod [rhif pennod], adran [rhif adran], tt. xxx-xxx

Enghraifft o Lyfr Print:

- [1] E. F. Moore, "Gedanken-experiments on sequential machines," in *Automata Studies*, C. E. Shannon a J. McCarthy, Gol. Princeton, NJ: Princeton Univ. Press, 1965, tt. 129-153.

Fformat sylfaenol cyfeiriad at Lyfr Electronig:

- [1] J. K. Awdur, "Teitl y bennod yn y llyfr," yn *Nheiti y Llyfr*, xed argraffiad, J. K. Golygydd, Gol. Dinas y Cyhoeddwr, Gwlad (os nad UDA: Talfyriad y Cyhoeddwr, blwyddyn, pennod [rhif pennod], adran [rhif adran], tt. xxx-xxx [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.....> [Cyrchwyd: dyddiad cyrchwyd].

Enghraifft o gyfeiriad at Lyfr Electronig:

- [1] N. McBride and I Elbeltagi, "Service Oriented Human Computer Interaction and Scripting", in *Issues of Human Computer Interaction*. A. Sarmento, Ed., Hershey, PA : IRM Press, 2005, pp. 1-20. Ar gael: <http://www.ebscohost.com/ebooks>. [Cyrchwyd: 15 Medi 2014].

Tudalennau Gwe**Fformat Sylfaenol:**

- [1] J. K. Awdur (blwyddyn, dyddiad). *Teitl y dudalen we neu'r wefan*, Enw Talfyredig y Cwmni neu'r Corff sy'n Cyhoeddi [Ar lein]. Ar gael: <http://www...> [Cyrchwyd: dyddiad cyrchwyd].

Nodyn - Nid yw llawer o dudalennau gwe yn rhoi awdur. Os nad ydych yn gallu enwi'r awdur, defnyddiwch y sefydliad / awdur corfforaethol yn lle hynny.

Enghreifftiau:

- [1] BBC News (2014, Medi 10). *Smart meters will save only 2% on energy bills, say MPs*. BBC News [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.bbc.co.uk/news/business-29125809>. [Cyrchwyd: Medi. 12, 2014].
- [2] Apple. *IEEE Standards Power & Energy Dictionary*, itunes.apple.com. [Ar-lein]. Ar gael: <https://itunes.apple.com/gb/app/ieee-standards-power-energy/id491148158?mt=8> [Cyrchwyd: Chwefror 27, 2012]

Papurau Cynhadledd wedi eu Cyhoeddi**Fformat Sylfaenol Papurau Print:**

- [1] J. K. Awdur, "Teitl y papur," yn *Enw'r Gynhadledd wedi ei Dalfyrru*, (nid oes raid cynnwys lleoliad y gynhadlaedd), blwyddyn, tt. xxx-xxx

Enghraifft o Bapur Print:

- [1] S. P. Bingulac, "On the compatibility of adaptive controllers," yn *Proc. 4th Annu. Allerton Conf. Circuit and Systems Theory*, New York, 1994, tt. 8-16

Fformat Sylfaenol Papur ar-lein:

- [1] J. K. Awdur, "Teitl y papur," yn *Enw'r Gynhadledd wedi ei Dalfyrru*, (nid oes raid cynnwys lleoliad y gynhadlaedd), blwyddyn, tt. xxx-xxx [Ar lein]. Ar gael: <http://www...> [Cyrchwyd: dyddiad cyrchwyd].

Enghraifft ar-lein:

- X. Yang. (2003, Awst). "NIRA: a new Internet routing architecture". yn ACM SIGCOMM FDNA 2003 Workshop. [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.isi.edu/newarch/DOCUMENTS/yang.nira.pdf>. [Cyrchwyd: 16 Mehefin 2010].

Papurau a Gyflwynwyd mewn Cynadleddau

Fformat Sylfaenol:

[1] J. K. Awdur, "Teitl y papur," a gyflwynwyd yn Enw'r Gynhadledd wedi ei Dalfyrru, Lleoliad y gynhadledd, blwyddyn.

Nodyn: peidiwch ailadrodd y dyddiad os yw'r flwyddyn yn ymddangos yn y teitl y gynhadledd

Enghraifft:

[1] J. G. Kreifeldt, "An analysis of surface-detected EMG as an amplitude-modulated noise," a gyflwynwyd yn yr 1989 Int.Conf. Medicine and Biological Engineering, Chicago, IL

Fformat Sylfaenol ar-lein:

[1] J. K. Awdur, Teitl y papur, a gyflwynwyd yn Enw'r Gynhadledd wedi ei Dalfyrru, Lleoliad y gynhadledd, blwyddyn. [Ar lein]. Ar gael: <http://www...> [Cyrchwyd: dyddiad cyrchwyd].

Enghraifft ar-lein:

J. A. Jones. Lazer history, a gyflwynwyd yn International Lazer Conference, Atlanta, Georgia, USA. 2009. [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.lazerconference.org>. [Cyrchwyd: 27 March 2014].

Theses a thraethodau hir

Fformat sylfaenol print:

[1] J. K. Awdur, "Teitl y thesis," M.S. thesis, Talfyriad o enw'r Adran, Prifysgol, Dinas Prifysgol, Talaith (os oes angen), blwyddyn.

[2] J. K. Awdur, "Teitl y Traethawd hir," Ph.D. thesis, Talfyriad o enw'r Adran, Prifysgol, Dinas Prifysgol, Talaith (os oes angen), blwyddyn.

Enghreifftiau print:

[1] J. O. Williams, "Narrow-band analyzer," Ph.D. thesis, Dept. Elect. Eng., Harvard Univ., Cambridge, MA, 1993.

Patents

Fformat sylfaenol:

[1] J. K. Awdur, "Teitl Patent," U.S. Patent x xxx xxx, Mis, Diwrnod, Blwyddyn Dalfyredig

Enghraifft Brint:

[1] J. P. Wilkinson, "Nonlinear resonant circuit devices," U.S. Patent 3 624 125, Gorffennaf 16, 1990.

Fformat Sylfaenol ar-lein:

Enw'r patent, gan enw'r awdur. (blwyddyn, mis dydd). *Rhif y Patent* [Ar-lein]. Ar gael: <http://www.....> [Cyrchwyd: dyddiad cyrchwyd].

Enghraifft ar-lein:

Musical toothbrush with adjustable neck and mirror, gan L.M.R. Brooks. (1992, Mai 19). *Patent D 326 189* [Ar-lein]. Ar gael: NEXIS Library: LEXPAT File:DESIGN [Cyrchwyd: 13 January 2014].

4. Help

Ceir canllawiau manylach ar gyfeirio yn IEEE yn: http://www.ieee.org/documents/style_manual.pdf Tudalen 34 ymlaen. I gael cymorth i ddefnyddio'r arweiniad hwn, neu os ydych chi am ddefnyddio arddull gyfeirio IEEE o fewn rhaglen rheoli cyfeiriadau megis RefWorks neu Endnote Online, cysylltwch â'r Tîm Cymorth Academaidd yn y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ac Archifau: libsupport@bangor.ac.uk